*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r Panel Gweithredol DDYDD LLUN 18 HYDREF 2021 dros Zoom. Dechreuir y cyfarfod am 2 o'r gloch y prynhawn.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiad o Ddiddordebau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 26 Gorffennaf 2021**

5. **Materion yn codi**

6. **COVID-19: Diweddariad (ar lafar)**

7. **Datganiad o Gyfrifon Archwiliedig a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21**

8. **Monitro Perfformiad Ebrill 2021 – Medi 2021**

9. **Gosod y Gyllideb ar gyfer 2022/2023**

10. **Adolygiad o'r Amcanion Gwella a Llesiant sydd yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2021-24**

11. **Rheoli Risgiau Strategol**

12. **Materion Brys**

    Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

13. **Cadernid y Prif Dîm Rheoli ac Adolygiad o Gyflogau**

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Panel Gweithredol**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ddydd Llun, 26 Gorffennaf 2021. Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm.

**Yn bresennol**

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| P Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol**

D Docx (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| C Everett | Clerc i'r Awdurdod |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 MAI 2021

4.1 Cafodd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 10 Mai 2021 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 ESMCP – yn y cyfarfod diwethaf, roedd yr Aelodau wedi cael gwybod am yr oedi yn y prosiect sy'n cael ei gynnal ar lefel y DU gyfan, bod y contract presennol gydag Airwave wedi cael ei ymestyn tan 2026 ac y rhagwelid y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i'w ariannu tan 2026. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod mater ariannu, a'r cynnydd tebygol yn y gost oherwydd bod y system yn mynd yn hen, wedi cael ei godi yn Fforwm Ymgynghorol yr Awdurdodau Tân ac Achub ar 21 Gorffennaf. Roedd y Dirprwy Weinidog wedi cytuno i ystyried cynyddu'r grant, a chaiff ei hymateb ei adrodd i'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

6 Y DIWEDDARAF AM COVID-19

6.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r PSTC Fairhead, cyn yr wybodaeth am faterion COVID-19, roi golwg gyffredinol ar y gweithgarwch o ran digwyddiadau dros y penwythnos.

6.2 Nodwyd bod yr holl wasanaethau brys yn gweld cynnydd yn y gweithgarwch oherwydd bod pobl yn cael gwyliau'n nes at gartref ac oherwydd y tywydd cynnes. Ymysg y digwyddiadau yr aethpwyd atynt, roedd dau dân damweiniol mewn cartrefi lle roedd pobl oedrannus yn byw ar eu pen eu hunain ac yn cael eu categoreiddio fel oedolion yn agored i niwed. Ni chafwyd anafiadau difrifol a chafodd y tanau eu diffodd yn gyflym. Fodd bynnag, mae hyn yn tynnu sylw eto at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a pharhau â'r ymdrechion i weithio ag asiantaethau sydd mewn cysylltiad yn ddyddiol â phobl fregus er mwyn cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi. Bydd archwiliadau diogel ac iach yn cael eu cynnal gyda'r unigolion yma heddiw er mwyn darparu ymyriadau pellach a chyngor er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto. Cyfeiriodd y PSTC at y diffoddwyr tân amser cyflawn ac ar-alwad sydd wedi gweithio'n galed i gyd mewn tywydd eithafol, ynghyd ag at broffesiynoldeb staff yr Ystafell Reoli a fu wrthi drwy gydol y penwythnos prysur yn monitro argaeledd y peiriannau ledled Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o beiriannau yn y mannau cywir i barhau i ddiogelu'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru yn ogystal â'r rhai a oedd yn ymweld â'r ardal.

6.3 Rhoddodd y PSTC Fairhead wybodaeth am effaith COVID-19 ar y Gwasanaeth yn ddiweddar. Er y bu cynnydd yn nifer yr achosion a bod mwy o bobl yn gorfod hunanynysu yn sgil y system Profi ac Olrhain, mae'r Gwasanaeth yn parhau â'i fwriad strategol i gadw'r gweithlu a'r gymuned yn ddiogel. Bydd y mesurau diogelwch Covid sydd yn eu lle ar hyn o bryd yn parhau cyhyd ag y bo angen er mwyn sicrhau bod gwasanaethau tân ac achub yn parhau i gael eu darparu i bobl Gogledd Cymru.

6.4 Mynegodd yr Aelodau eu diolch i'r holl staff a chriwiau a fu'n gweithio'n ddiflino dros y penwythnos. O ran gweithio mewn partneriaeth a chanfod pobl agored i niwed yng nghymunedau Gogledd Cymru, gofynnodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau gysylltu â'u Haelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol i rannu'r wybodaeth am archwiliadau diogel ac iach i'r holl staff gofal cymdeithasol yn eu hawdurdodau cyfansoddol.

6.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 DATGANIAD O GYFRIFON A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21

7.1 Rhoddodd Matthew Edwards o Archwilio Cymru wybodaeth ar lafar am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cymeradwyo datganiad o gyfrifon 2020/21. Dywedodd fod swyddogion Archwilio Cymru yn dal i gael trafodaethau â rheolwyr GTAGC am nifer o faterion felly nid oeddent yn gallu darparu barn archwilio eto. Nodwyd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 Rhif 404 wedi ymestyn dyddiad cyhoeddi'r Cyfrifon i 30 Tachwedd. Cadarnhaodd Mr Edwards y bydd barn arfaethedig Archwilio Cymru ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ac y bydd yn barod i gael ei chymeradwyo'n derfynol yn y cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol ar 18 Hydref.

7.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

8 MONITRO PERFFORMIAD EBRILL 2021 – MEHEFIN 2021

8.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am weithgarwch y Gwasanaeth yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2021/22, am y perfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant, ac am weithgareddau nodedig eraill o ran digwyddiadau.

8.2 Tynnwyd sylw'r Aelodau am yr ystadegau canlynol:

- roedd y Gwasanaeth wedi mynd at gyfanswm cyfunol o 1,320 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, ac roedd hyn 4.2% yn is na'r 1,378 yn yr un cyfnod y llynedd;
- roedd nifer y tanau yn yr awyr agored wedi gostwng o 399 i 294 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd;
- fe wnaeth y galwadau diangen yr aethpwyd atynt ostwng 5.9%, sef o 629 yn chwarter cyntaf 2020/21 i 592 yn y cyfnod adrodd hwn;

8.3 Nodwyd bod nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi 9 (8.7%) yn fwy, er nad oedd hyn yn gynnydd mawr yr oedd yn gynnydd er hynny, a bydd y Gwasanaeth yn ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau nad yw hyn yn parhau i gynyddu dros amser.

8.4 O ran gwaith ataliol y Gwasanaeth, a gan fod rhai o gyfyngiadau'r pandemig wedi'u codi, roedd y Gwasanaeth wedi cynnal 2,547 o archwiliadau diogel ac iach yn ystod y chwarter cyntaf; mae hyn yn llai nag yn yr un cyfnod y llynedd. Nodwyd hefyd fod nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn is oherwydd cyfyngiadau'r pandemig ar gysylltiad cymdeithasol, a oedd wedi arwain at gynnal y rhan fwyaf o archwiliadau dros y ffôn.

8.5 I ymateb i gais, cytunodd y PSC Morris i roi rhagor o fanylion mewn cyfarfod yn y dyfodol ynglŷn â'r hyn sy'n achosi tanau damweiniol mewn cartrefi.

8.6 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

9 PENODI I SWYDDI'R SWYDDOG MONITRO A THRYSORYDD

9.1 Fe wnaeth y PST gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am ofynion swyddi statudol y Swyddog Monitro a'r Trysorydd ac i geisio cymeradwyaeth i ddechrau ar broses gystadleuol i benodi iddynt, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2022.

9.2 Esboniodd y PST fod Colin Everett wedi mynegi ei fwriad i ymddiswyddo fel Swyddog Monitro yr Awdurdod ar yr un pryd ag y bydd yn ymddiswyddo fel Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint. Mae'r contract presennol yn cynnwys darparu dirprwy Swyddog Monitro a chaiff y gwasanaethau hyn eu darparu gan Gareth Owens, Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint. Y bwriad yw gofyn i Gareth Owens barhau i gyflawni cyfrifoldebau'r Swyddog Monitro tan 1 Ebrill 2022.

9.3 Mae Ken Finch, sydd wedi gwasanaethu fel Trysorydd yr Awdurdod ers ei greu yn 1996, hefyd wedi cyhoeddi i fwriad i gamu i lawr o'r swydd tuag at ddiwedd y flwyddyn.

9.4 Gan mai swyddi statudol yw'r ddwy swydd, sef Swyddog Monitro a Thrysorydd, a bod rhaid iddynt gael eu dal gan unigolion a gaiff eu henwi ac sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol, cytunodd yr Aelodau y dylid cynnal proses benodi gystadleuol. Dan delerau cyfansoddiad yr Awdurdod, nodwyd y dylai'r broses benodi gael ei goruchwylio gan bwyllgor a sefydlir ar gyfer y pwrpas hwnnw. Bydd y penodiadau'n destun cymeradwyaeth yr Awdurdod llawn yn dilyn argymhelliad y pwyllgor hwnnw.

9.5 Cynigiodd y Cadeirydd fod y panel penodi yn cynnwys:

- Y Cyng. Peter Lewis, Cadeirydd yr Awdurdod
- Y Cyng. Dylan Rees, Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod
- Y Cyng. Bryan Apsley, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
- Y Cyng. Owen Thomas, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio

a dau Aelod o'r awdurdodau cyfansoddol sydd heb eu cynrychioli eisoes, sef Sir Ddinbych a Gwynedd - yr enwau i'w cadarnhau.

9.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r gofyniad i'r Awdurdod benodi i swyddi statudol y Trysorydd a'r Swyddog Monitro, a chymeradwyo dechrau ar broses gystadleuol i benodi i'r swyddi hynny, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2022.**

**(ii) cytuno ar y panel penodi a nodir uchod.**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Hydref 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad o Gyfrifon Archwiliedig a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Datganiad o Gyfrifon Archwiliedig 2020/21 i'r Aelodau. Mae'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

2 Y Pwyllgor Archwilio sydd wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau cyllid, a gwneud argymhellion i'r Panel Gweithredol ar sail ei ganfyddiadau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio ar 28 Mai 2021. Roedd y rhain yn cadarnhau gwariant net o £38.55m, gyda chyfraniad o £0.063m i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig derfynol wedi newid.

4 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod wedi'i nodi yn Atodiad 2, ac mae'n dangos cydymffurfiaeth â Fframwaith CIPFA/Solace, sef *Delivering Good Governance in Local Government Framework* (2016).

5 Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'i nodi yn Atodiad 3 ac mae'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig a'r datganiad llywodraethu blynyddol gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 31 Gorffennaf fel arfer. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, cafodd yr amserlenni eu hymestyn i 30 Tachwedd 2021.

**SYLWADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

7 Roedd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y datganiad o gyfrifon archwiliedig a'r datganiad llywodraethu yn y cyfarfod ar 18 Hydref 2021. Rhoddir yr wybodaeth ar lafar yn y cyfarfod.

## ARGYMHELLIAD

8 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) derbyn argymhelliad y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2021;
(ii) cymeradwyo'r sefyllfa alldro archwiliedig a'r perfformiad fel sydd yn Natganiad o Gyfrifon 2020/21 (Atodiad 1);
(iii) cymeradwyo'r trefniadau llywodraethu a'r cynllun gweithredu fel yr amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 (Atodiad 2);
(iv) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 3); a
(v) nodi'r llythyr cynrychiolaeth a gynigir.

## CEFNDIR

9 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, mae'r Awdurdod wedi llunio datganiad o gyfrifon a datganiad llywodraethu blynyddol a gafodd eu cyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 21 Mehefin. Mae'r rhain wedi bod yn destun archwiliad allanol ac mae'r atodiadau'n cynnwys y fersiynau archwiliedig terfynol.

## GWYBODAETH

## GWARIANT REFENIW

10 Cafodd Aelodau'r Awdurdod adroddiad perfformiad ariannol ar gyfer 2020/21 yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 21 Mehefin 2021. Roedd hwn yn cadarnhau sefyllfa alldro drafft y gwariant net o £38.55m, gyda chyfraniad o £0.063m i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig derfynol wedi newid.

## Y FANTOLEN

11 Mae'r Fantolen yn rhoi mwy o wybodaeth am sefyllfa ariannol hirdymor yr Awdurdod, ac mae wedi'i chynnwys ar dudalen 19 o'r Cyfrifon (yn Atodiad 1). Mae'r paragraffau a ganlyn yn rhoi mwy o wybodaeth.

### Asedau sefydlog a benthyciadau

12 Roedd y cyfrifon archwiliedig terfynol yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn dal asedau'n werth £40.01m ar 31 Mawrth 2021. Roedd y prisiwr allanol a benodwyd wedi nodi nifer o addasiadau archwilio o ran ailbrisio tir ac adeiladau'r Awdurdod. Mae'r addasiadau hyn wedi cael eu gwneud, ac mae gwaith yn mynd ymlaen i ddelio â'r mater hwn ar gyfer prisiadau yn y dyfodol.

13 Caniateir i'r Awdurdod fenthyca i ariannu asedau cyfalaf, ac ar 31 Mawrth 2021, £26.1m oedd gwerth y benthyciadau sy'n weddill, ac mae hynny'n cyd-fynd â'r terfynau a osodwyd gan yr Awdurdod.

**Ymrwymiadau Pensiwn**

14 Rhaid i'r Awdurdod roi cyfrif am yr ymrwymiadau a amcangyfrifir ar gyfer ei gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Caiff gwerth ymrwymiadau'r dyfodol eu cyfrifo gan actiwari pob cynllun ac roeddent y rheini'n £337.32m ar ddyddiad y fantolen.

**Cronfeydd defnyddiadwy**

15 £4.91m oedd yng nghronfeydd defnyddiadwy'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2021, ac roedd hynny'n cynnwys £1.45m mewn cronfa wrth gefn gyffredinol a £3.46m mewn cronfeydd a glustnodwyd. Cafodd y polisi ar gronfeydd wrth gefn ei gymeradawyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 21 Mehefin 2021.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

16 Ers 2010/11, mae pob corff llywodraeth leol wedi gorfod paratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n cael ei gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

17 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â'r saith egwyddor sydd yn y ddogfen gyfarwyddyd, sef *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* (CIPFA/SOLACE 2016).

18 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 wedi'i nodi yn Atodiad 2. Mae'n darparu golwg gyffredinol ar y trefniadau llywodraethu ac mae'n cadarnhau'r rhaglen waith ar gyfer 2021/22.

19 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i adnabyddiaeth o'r Awdurdod. Wrth gynnal yr archwiliad, roedd yr archwilydd wedi gwneud nifer o awgrymiadau sydd wedi cael eu hymgorffori yn y fersiwn derfynol. Roedd y rhain yn cynnwys ehangu'r naratif am y camau a gymerwyd yn ystod y pandemig i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'n parhau, ynghyd â chyfeirio at waith Archwilio Cymru ym maes cadernid corfforaethol.

## ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL

20 Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am roi barn i ddweud a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg o berfformiad a sefyllfa'r Awdurdod yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

21 Wrth gynnal y gwaith archwilio, nid ceisio rhoi sicrwydd absoliwt y mae Archwilio Cymru ond ystyried a oes unrhyw faterion o bwys a allai arwain at gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Pan fo gwall neu gamddatganiad yn cael ei ganfod, bydd Archwilio Cymru yn ystyried a oes angen newid hynny. Ceir arweiniad yn Atodiad 4 am y dull o wneud hynny.

22 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnig rhoi barn archwilio ddiamod, sy'n golygu bod y cyfrifon yn cyflwyno golwg wir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 3, a nodir y canlynol:

- Mae'r adroddiad archwilio yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol i wella ansawdd y datganiadau ariannol a'r heriau a ddaeth gyda Covid-19. Fodd bynnag, mae angen gwaith ychwanegol i wella rhagor ar y trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn gostwng nifer yr addasiadau archwilio.

- Canfu'r archwiliad nifer o newidiadau y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr. Nid oedd y newidiadau'n effeithio ar y sefyllfa a adroddodd yr Awdurdod ac roeddent yn cynnwys nifer o addasiadau technegol sydd eu hangen i gydymffurfio'n llwyr â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

- Canfu'r archwiliad ddau fater nad oedd wedi cael eu cywiro. Roedd y cyntaf yn ymwneud â £0.06m o yswiriant a oedd wedi cronni ac a gaiff ei wrthdroi yn ystod 2021/22 ac nad yw'n cael ei ystyried yn fater o bwys. Roedd yr ail eitem yn ymwneud ag un taliad o £ 0.958m i Gronfa Bensiwn Clwyd i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyfnod rhwng 2021/22 a 2023/24. Wrth wneud cyfandaliad, manteisiodd yr Awdurdod ar gostau is dros y cyfnod o dair blynedd, a dosrannodd y taliad dros y cyfnod perthnasol. Fodd bynnag, caiff mwy o waith ei wneud yn ystod 2021/22 i gytuno ar y dulliau cyfrifyddu technegol rhwng y gronfa wrth gefn gyffredinol a'r gronfa bensiwn.

23 Roedd yr Adroddiad Archwilio hefyd yn cynnwys y llythyr cynrychiolaeth terfynol. Mae'r llythyr hwn yn darparu cynrychiolaeth gan y Cadeirydd a'r Trysorydd i gydnabod eu cyfrifoldebau ac i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae cyllid i'r Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith fel bod y Gwasanaeth yn gallu darparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Caiff y gyllideb ei gosod yn flynyddol yn unol â'r ddarpariaeth gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol fod yr Awdurdod yn llunio Datganiad o Gyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod unrhyw achosion o wyro oddi wrth y gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol a'u hadrodd i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18 Hydref 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (01745 535286)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2021 – Medi 2021** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau'r Gwasanaeth yn ystod chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2021/22; ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant, a gweithgarwch digwyddiadau eraill o bwys.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 2,734 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, sef 4.8% yn uwch na'r 2,610 yn yr un cyfnod y llynedd. Roedd nifer y tanau yn yr awyr agored wedi gostwng 9.7%, sef o 601 i 543.

3 Roedd y Galwadau Diangen yr aethpwyd atynt wedi cynyddu 4.1% o 1,246 yn y chwe mis cyntaf yn 2020/21 i 1,297 eleni. Roedd y cynnydd wedi digwydd yn rhannol oherwydd bod nifer y galwadau tân o ganlyniad i offer (larymau tân awtomatig) wedi cynyddu o 613 i 714 (16.5%).

4 Cafwyd 384 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig o gymharu â 278 y llynedd, sef cynnydd o 38.1%. Roedd nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt wedi cynyddu 75.5%, sef o 49 i 86, tra roedd y digwyddiadau Heblaw Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (ac eithrio prosiectau) wedi cynyddu o 194 i 245 (26.3%).

5 Aeth y Gwasanaeth at 208 o danau damweiniol mewn cartrefi, sef 11.2% o gynnydd o gymharu â'r 187 yr aethpwyd atynt y llynedd. Yn y digwyddiadau hynny, cofnodwyd bod 19 o bobl wedi cael mân anafiadau a bod tri wedi cael anafiadau difrifol. Cafodd 44 o bobl gymorth cyntaf neu archwiliad rhagofalus yn y fan a'r lle, a chollodd tri o bobl eu bywydau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd – sef un yn llai nag yn 2020/21.

6 Cynhaliodd y Gwasanaeth 5,885 o archwiliadau diogel ac iach yn ystod chwe mis cyntaf 2021/22, sef 627 yn llai na'r 6,512 a gynhaliwyd y llynedd. Roedd nifer yr archwiliadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yn is oherwydd cyfyngiadau'r pandemig ar gysylltiadau cymdeithasol, felly cafodd y rhan fwyaf ohonynt eu cynnal dros y ffôn.

7 Cafwyd cynnydd bach yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aeth y Gwasanaeth atynt pan nad oedd larwm mwg yno. Roedd hyn wedi gostwng o 27 yn 2020/21 i 26 yn 2021/22. Mae nifer yr adegau yr ydym yn mynd at danau damweiniol mewn cartrefi lle nad oes larwm mwg yno wedi bod gostwng ers 2017/18, er y bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau lle roedd larwm mwg wedi rhoi gwybod i'r preswylwyr fod tân – sef o 84 y llynedd i 100. Cafwyd gostyngiad bach yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi lle roedd larymau mwg yno ond heb seinio – sef o 43 y llynedd, i 42.

**ARGYMHELLIAD**

8 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

9 Yn Atodiad 1, er gwybodaeth i'r Aelodau, mae'r adroddiad monitro am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n gymorth i'r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant a osodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2021/24. |
| Cyllideb | Mae'n gymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ddiwallu'r gofynion sy'n newid oherwydd newidiadau mewn gwaith ar gyfer digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Byddai peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro yn gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

## Hanner Blwyddyn

## Ebrill – Medi 2021


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i'w newid.**

**CYNNWYS**


| **ADRODD YNGHYLCH GWAITH DIGWYDDIADAU** | |
|---|---|
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Golwg gyffredinol ar yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliad | 2 |
| Tanau yn ôl y math o eiddo a chymhelliad | 3 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 4 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 5 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thynnu Pobl Allan/Rhyddhau | 6 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN 1- GWEITHIO TUAG AT WNEUD GWELLIANNAU I IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT POBL YNG NGHYMRU** | |
| Tanau damweiniol mewn cartref | 7 |
| Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 9 |
| Gweithrediad larymau mwg mewn tanau damweiniol mewn cartrefi | 10 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 11 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Yn ystod chwe mis cyntaf 2021/22, aeth y Gwasanaeth at 2,734 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, sef 4.8% yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2020/21.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwydd-iadau yr aethpwyd atynt | 2021-22 | 1,322 | 1,412 | | | 2,734 | ↑ 4.8% | 2,794 | ↓ 2.1% |
| | 2020-21 | 1,378 | 1,232 | | | 2,610 | | | |
| Yr holl danau | 2021-22 | 575 | 478 | | | 1,053 | ↓ 3.0% | 1,208 | ↓ 12.8% |
| | 2020-21 | 653 | 433 | | | 1,086 | | | |
| Yr holl ddigwydd-iadau gwas-anaeth arbennig | 2021-22 | 152 | 232 | | | 384 | ↑ 38.1% | 360 | ↑ 6.7% |
| | 2020-21 | 96 | 182 | | | 278 | | | |
| Yr holl alwadau diangen | 2021-22 | 595 | 702 | | | 1,297 | ↑ 4.1% | 1,226 | ↑ 5.8% |
| | 2020-21 | 629 | 617 | | | 1,246 | | | |


*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

Cyfnod Adrodd: Ebril 2021 – Medi 2021

## 2.0 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliad

2.1 **Prif danau –** mae'r rhain wedi cynyddu 8.4%, ac Adeiladau a Cherbyd ('Ffordd' a 'Chludiant Arall') yw'r mathau o eiddo sydd wedi cael y rhan fwyaf o brif danau, sef cyfartaledd o 70.7% a 23.6% yn eu trefn, a'r gweddill yw rhai 'Awyr Agored'.

2.2 **Tanau eilaidd –** Cafwyd 9.9% o ostyngiad yng nghyfanswm nifer y tanau eilaidd yn 2021/22 o gymharu â'r llynedd. Roedd y rhan fwyaf o danau eilaidd, sef 96.1%, wedi digwydd mewn mathau o eiddo 'Awyr Agored'.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 2021-22 | 251 | 227 | | | 478 | ↑ 8.4% | 486 | ↓ 1.6% |
| | 2020-21 | 224 | 217 | | | 441 | | | |
| Tanau eilaidd | 2021-22 | 293 | 244 | | | 537 | ↓ 9.9% | 680 | ↓ 21.0% |
| | 2020-21 | 394 | 202 | | | 596 | | | |
| Tanai simnai | 2021-22 | 31 | 7 | | | 38 | ↓ 22.4% | 43 | ↓ 11.6% |
| | 2020-21 | 35 | 14 | | | 49 | | | |

*Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd y cyfnod cymharol yn y 3 blynedd flaenorol gyda'r newid yn y ganran. *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 3.0 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliad

3.1 Yn ystod hanner cyntaf 2021/22, cafwyd 36 o brif danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl, gyda 21 o'r rheini'n digwydd yng Ngharchar EM Berwyn. Yn yr un cyfnod y llynedd, aeth y gwasanaeth at 37 o danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl, gyda 25 o'r rheini'n digwydd yng Ngharchar EM Berwyn.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2021-22 | 40 | 41 | | | 81 | ↓ 8.0% | 108 | ↓ 25.0% |
| | 2020-21 | 41 | 47 | | | 88 | | | |
| Yr holl brif danau dam-weiniol | 2021-22 | 211 | 186 | | | 397 | ↑ 12.5% | 378 | ↑ 5.0% |
| | 2020-21 | 183 | 170 | | | 353 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4.0 Galwadau Diangen

4.1 Yn ystod hanner cyntaf 2021/22, aeth y Gwasanaeth at 1,297 o alwadau diangen, sef 4.1% o gynnydd o'r 1,246 y flwyddyn flaenorol. Bu 8.1% o ostyngiad yn nifer y galwadau diangen didwyll, ni fu newid yn nifer y galwadau diangen maleisus (18), a bu 16.5% o gynnydd yn y galwadau diangen oherwydd offer (galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig).





| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 602 | 611 | 627 | 613 | 714 | 617 |
| Didwyll | 511 | 599 | 556 | 615 | 565 | 590 |
| Maleisus | 18 | 15 | 23 | 18 | 18 | 19 |
| Cyfanswm | 1,131 | 1,225 | 1,206 | 1,246 | 1,297 | 1,226 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl alwadau diangen | 2021-22 | 595 | 702 | | | 1,297 | ↑ 4.1% | 1,226 | ↑ 5.8% |
| | 2020-21 | 629 | 617 | | | 1,246 | | | |
| Larwm Tân Awtomatig | 2021-22 | 311 | 403 | | | 714 | ↑ 16.5% | 617 | ↑ 15.7% |
| | 2020-21 | 282 | 331 | | | 613 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2021-22 | 278 | 287 | | | 565 | ↓ 8.1% | 590 | ↓ 4.2% |
| | 2020-21 | 330 | 285 | | | 615 | | | |
| Maleisus | 2021-22 | 6 | 12 | | | 18 | → 0.0% | 19 | ↓ 5.3% |
| | 2020-21 | 17 | 1 | | | 18 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 5.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

5.1 Cafwyd 384 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ystod hanner cyntaf 2021/22, o gymharu â 278 yn ystod yr un cyfnod y llynedd, sef cynnydd o 38.1%. Yn fwyaf arwyddocaol, bu cynnydd o 75.5% yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.





| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| GRFfs | 98 | 106 | 111 | 49 | 86 |
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 235 | 194 | 199 | 194 | 245 |
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 472 | 120 | 0 | 0 | 0 |
| Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad) | 10 | 35 | 36 | 35 | 53 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2021-22 | 152 | 232 | | | 384 | ↑ 38.1% | 360 | ↑ 6.7 % |
| | 2020-21 | 96 | 182 | | | 278 | | | |
| Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 2021-22 | 31 | 55 | | | 86 | ↑ 75.5% | 89 | ↓ 3.4% |
| | 2020-21 | 17 | 32 | | | 49 | | | |
| Heblaw gwrth-drawiadau traffig ar y ffyrdd | 2021-22 | 121 | 177 | | | 298 | ↑ 30.1% | 271 | ↑ 10.0% |
| | 2020-21 | 79 | 150 | | | 229 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 6.0 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thynnu Pobl Allan/Rhyddhau

6.1 Yn ystod hanner cyntaf 2021/22, aeth y Gwasanaeth at 86 o ddigwyddiadau'n ymwneud â gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, sef 75.5% o gynnydd o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (49). Cafwyd 28 o ddigwyddiadau a oedd yn golygu tynnu pobl allan a/neu ryddhau (32.6%), o gymharu ag 17 (34.7%) yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.





| | |
|---|---|
| **86** | o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd |
| **49** | o ddigwyddiadau lle roedd pob wedi cael anaf |
| **28** | o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau |

| **Difrifoldeb yr Anaf *** | **Nifer y bobl** |
|---|---|
| Archwiliad rhagofalus | 5 |
| Cymorth Cyntaf | 9 |
| Mân Anafiadau | 38 |
| Anafiadau difrifol | 22 |
| Anafiadau | 8 |
| **Pan fo anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ar gael, caiff y rhain eu cofnodi yn yr IRS yn yr un categori ag anafiadau tân* | |

## 7.0 Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru - *cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi codi 11.2% i 208 o 187 yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. O'r 208 o danau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt, roedd 90 yn gysylltiedig â choginio (sosban saim/ffriwr saim dwfn a dulliau coginio eraill), nam ar offer neu beiriant, neu fod yn esgeulus wrth ddefnyddio offer neu beiriant (ffynhonnell gwres). Mae hyn yn 28.6% (20) o gynnydd yn nifer y digwyddiadau o'r fath o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ac mae 17.5% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd, sef 177.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 113 | 95 | | | 208 | ↑ 11.2% | 177 | ↑ 17.5% |
| | 2020-21 | 104 | 83 | | | 187 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 8.0 Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi

8.1 Yn y chwe mis cyntaf yn 2021/22, cafwyd 66 o anafusion nad oeddent yn angheuol oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, ac roedd y rhain yn cynnwys tri anaf difrifol ac 19 mân anaf. Cafwyd tri anaf angheuol oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, ac mae'r tri yn aros am gadarnhad gan y crwner.


| **Difrifoldeb yr anaf** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 20 | 8 | 9 | 18 | 22 |
| Cymorth Cyntaf | 10 | 11 | 22 | 11 | 22 |
| Mân Anafiadau | 23 | 8 | 12 | 12 | 19 |
| Anafiadau Difrifol | 2 | 0 | 3 | 0 | 3 |
| Marwolaeth | 1 | 2 | 1 | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **56** | **29** | **47** | **44** | **69** |

| **Categori** | **Blwydd-yn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfan-swm y cyfnod hyd yma** | **Newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 43 | 23 | | | 66 | ↑ 25 |
| | 2020-21 | 26 | 15 | | | 41 | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 3 | 0 | | | 3 | → 0 |
| | 2020-21 | 3 | 0 | | | 3 | |

| **Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol** | |
|---|---|
| 38 | ↑ 28 |

## 9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach

9.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd 5,885 o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac roedd 2,167 (36.9%) o'r rheini i gartrefi a atgyfeiriwyd gan asiantaethau sy'n bartneriaid i ni, ac a oedd yn cynnwys 3,387 o archwiliadau wyneb yn wyneb o gymharu â 958 yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Cynhaliwyd llai o archwiliadau dros y ffôn yn y cyfnod adrodd hwn (2,493), o gymharu â 5,547 yn yr un cyfnod y llynedd.




| Categori | Blwydd-yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi dod drwy atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni | 2021-22 | 39% | 37% | | | 38% | ↑ 6pp | 28% | ↑ 10pp |
| | 2020-21 | 30% | 33% | | | 32% | | | |

* Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 10.0 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

10.1 Gall larymau mwg/gwres roi rhybudd cynnar o dân ac roeddent ar gael yn y rhan fwyaf (87.5%) o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi lle nad oedd larwm yno wedi gostwng 3.7% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y digwyddiadau lle roedd larwm mwg yno ond heb seinio wedi gostwng 2.3% i 42 o gymharu â 43 yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Pan roedd larwm mwg yno ond heb roi rhybudd, roedd nifer y digwyddiadau wedi cynyddu i 40 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (33).

| Categori | Blwydd -yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg yno ac wedi seinio a rhoi rhybudd | 2021-22 | 54 | 46 | | | 100 | ↑ 19.0% | 81 | ↑ 23.5% |
| | 2020-21 | 48 | 36 | | | 84 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | 2021-22 | 26 | 16 | | | 42 | ↓ 2.3% | 42 | → 0.0% |
| | 2020-21 | 22 | 21 | | | 43 | | | |
| Larwm mwg yno, wedi seinio ond heb roi rhybudd | 2021-22 | 20 | 20 | | | 40 | ↑ 21.2% | 32 | ↑ 25.0% |
| | 2020-21 | 18 | 15 | | | 33 | | | |
| Larwm mwg ddim yno | 2021-22 | 13 | 13 | | | 26 | ↓ 3.7% | 22 | ↑ 18.2% |
| | 2020-21 | 16 | 11 | | | 27 | | | |

* Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, cyfarpar a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion yno, os oes angen achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pump neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |

| | |
|---|---|
| Galwadau diangen – larymau tân awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Hydref 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) (01745 535258)** |
| Pwnc | **Gosod y Gyllideb ar gyfer 2022/2023** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Yn yr adroddiad hwn, mae'r Aelodau yn cael gwybod am broses y gyllideb, y rhagdybiaethau cynllunio a'r amserlenni ar gyfer gosod cyllideb refeniw'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) ar gyfer 2022/23.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23 yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021. Dechreuwyd ar y gwaith rhagbaratoi sydd ei angen i sefydlu'r gyllideb sylfaenol, ac mae hynny'n cynnwys adolygiad o'r lefelau gwariant cyfredol, y rhagdybiaethau cynllunio allweddol a'r risgiau. Darperir crynodeb yn Atodiad 1.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r Aelodau wneud y canlynol:

(i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23; a

(ii) nodi'r cynnig i gael yr Awdurdod i gymeradwyo'r gyllideb refeniw 2022/23 yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021.

**CEFNDIR**

4 Bob blwyddyn, rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb refeniw fantoledig sy'n gorfod cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er nad yw'r term "mantoledig" wedi'i ddiffinio'n ffurfiol yn y ddeddfwriaeth, mae CIPFA (y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus) yn cydnabod y dylai sefydliadau gael cynlluniau ariannol sy'n dangos sut y caiff y gwariant ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig.

5 Mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn y tymor byr a chanolig yn seiliedig ar adnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r prif bethau sy'n gyrru costau, gan gynnwys gwerthuso risgiau ac ansicrwydd. Agweddau hanfodol ar hyn yw'r gofynion ar y gwasanaeth, yr adnoddau sydd ar gael, a'r weledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol.

6 Ers dechrau yn ei swydd ar 1 Gorffennaf 2021, mae'r Prif Swyddog Tân wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd yn fewnol â staff, cynrychiolwyr Undeb yr FBU, arweinwyr gwasanaethau brys eraill yn ogystal â chydweithwyr o'r Awdurdodau Lleol.

7 Penllanw'r gwaith oedd cyflwyniad i'r Aelodau ar 20 Medi 2021 i drafod yr asesiad sefyllfaol. Roedd hyn yn cadarnhau mai'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod yw cynnal lefel ddigonol o argaeledd o griwiau tân ar-alwad; sicrhau bod digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o gapasiti corfforaethol i ateb y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

8 Yn ogystal â'r meysydd heriol penodol hyn, mae'r Awdurdod hefyd yn wynebu'r ansicrwydd sy'n gyffredin i holl gyrff y sector cyhoeddus wrth i ni ddod allan o'r pandemig. Yn arbennig, yr angen am ddull lleol a chydlynol o weithio mewn partneriaeth wrth reoli effaith chwyddiant, materion yn ymwneud â chyflenwadau, costau uwch yswiriant gwladol a chwyddiant cyflogau.

9 Er bod yr asesiad cychwynnol o gyllideb 2022/23, a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2020, yn dangos bod gofyniad cyllidebol net o £38.08m. Bydd rhaid diwygio hyn er mwyn adlewyrchu'n llwyr y materion a ganfuwyd.

10 Bydd y gwaith o gynllunio'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn canolbwyntio ar y materion a ganfuwyd yng nghyflwyniad y Prif Swyddog Tân ar 20 Medi 2021. Caiff y risgiau a'r heriau hyn eu hystyried ymhellach gan Aelodau'r Awdurdod mewn gweithdy cynllunio i'w gynnal ar 2 Tachwedd 2021.

11 Gwneir rhagor o wybodaeth gyda'r awdurdodau lleol cyfansoddol i sicrhau bod gofynion cyllidebol yr Awdurdod yn cael eu cyfathrebu'n llwyr.

**GWYBODAETH**

12 Yn dilyn adolygiad pellach, mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wrthi'n cael ei ddiwygio ac mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Bydd cyllideb refeniw ddrafft 2022/23 yn cael ei pharatoi a'i hystyried er mwyn i'r Awdurdod ei chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021.

13 Mae'r asesiad sefyllfaol wedi canfod heriau o ran argaeledd gorsafoedd ar gael yn ôl y galw, capasiti corfforaethol a hyfforddi diffoddwyr tân. Yn dilyn cymeradwyaeth gan yr Awdurdod, mae adolygiadau manwl yn cael eu cynllunio er mwyn darparu ar gyfer gwaith cynllunio tymor canolig a thymor hir. Hefyd, mae angen cymryd camau byrdymor i fynd i'r afael â phwysau sy'n bodoli ar unwaith a chaiff y mater hwn sylw gan yr Aelodau yn y gweithdy cynllunio ym mis Tachwedd 2021. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r materion gorfodol wedi'u cynnwys yn yr asesiad o gyllideb 2022/23.

14 Fel arfer, mae costau gweithwyr yn fwy na 70% o'r gwariant, ac mae'r asesiad cynllunio cyfredol yn rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog i'r holl grwpiau o staff. Nodir nad yw'r negodiadau cenedlaethol am gyflogau wedi cael eu cwblhau ac mae hyn yn risg sylweddol ar hyn o bryd. Amcangyfrifir y byddai angen £0.2m arall ar gyfer pob 1% yn uwch na'r rhagdybiaeth gynllunio.

15 Risg arall i gostau gweithwyr yw cyfraniadau pensiwn y cyflogwr i ddiffoddwyr tân a gynyddodd yn ystod 2019/20 yn dilyn ailbrisiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae prisio pensiynau yn faes cymhleth sy'n gofyn am ragamcanion hirdymor. Yn dilyn newid i'r rhagdybiaethau, cafwyd cynnydd sylweddol yn 2019/20 yng nghyfraniadau'r cyflogwr i gynlluniau nad ydynt yn cael eu hariannu. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol. Nid yw'r sefyllfa hon wedi cael ei chadarnhau ar gyfer 2022/23 ac ymlaen ac mae hyn yn golygu £1.1m o risg. Ar hyn o bryd, y rhagdybiaeth ar gyfer y gyllideb yw y bydd cyllid yn dod i law.

16 Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd cyfraniadau yswiriant gwladol dosbarth 1 y cyflogwr yn codi i dalu am gostau'r GIG a gofal cymdeithasol yn y DU. Bydd yr 1.25% ychwanegol yn gymwys o Ebrill 2022 ymlaen, a bydd hyn yn golygu rhyw £0.2m o bwysau costau uniongyrchol.

17 Er bod cynnydd chwyddiannol wedi cael ei gymhwyso i gyllidebau nad ydynt yn gyflogau, mae nifer o risgiau ac ansicrwydd sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys costau tanwydd a chyfleustodau, sy'n dal yn anodd eu rhagweld oherwydd materion yn ymwneud â phrisiau a chyflenwadau,. Hefyd, mae argaeledd a chostau nwyddau megis cyflenwadau adeiladu, offer TGCh a darnau ar gyfer y fflyd yn peri pryder hefyd oherwydd cymhlethdod y cadwyni cyflenwi a'r ansicrwydd yn fyd-eang.

18 Mae nifer o risgiau eraill o fewn y cyllidebau nad ydynt yn gyflogau, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) (cysylltiadau).

19 Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Cynhaliwyd adolygiad o'r rhaglen gyfalaf i gefnogi'r gwaith o reoli'r costau hyn. Mae ansicrwydd yn parhau o ran cost benthyca, a chedwir cronfa wedi'u chlustnodi i liniaru effaith amrywiadau annisgwyl.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ynghylch hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Caiff yr asesiad cychwynnol o £38.08m sydd yn y cynllun ariannol tymor canolig a gymeradwywyd gan yr Aelodau yn ystod Tachwedd 2020 ei ddiwygio i adlewyrchu'r asesiad cyfredol. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb fantoledig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Fel arfer, mae mwy na 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff felly mae'n ffactor o bwys wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nodwyd gan y Prif Swyddog Tân yn cynnwys yr angen i recriwtio mwy o staff i'r ddyletswydd RDS a hefyd i gynyddu cadernid corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn rhan o'r cynigion ar gyfer gosod y gyllideb. |
| Risgiau | Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol mewn perthynas â chyllideb 2022/23 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. |

**Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Caiff y cyllidebau staffio eu llunio ar sail modelau cyflawni gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, a chânt eu diweddaru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân. Rhagwelir y bydd angen mwy o swyddi i ateb gofynion hyfforddi a materion yn ymwneud â chapasiti corfforaethol.<br>• Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol a gyflwynwyd i'r aelodau ym mis Tachwedd 2020 yn rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog cenedlaethol. Mae hyn yn parhau'n risg allweddol, gyda chost o £0.2m ar gyfer pob 1% yn uwch na'r gyfradd hon.<br>• Mae cyfraniadau yswiriant gwladol wedi codi 1.25% ac ni ragdybir unrhyw gymorth gan y llywodraeth ganolog o fewn y broses o osod y gyllideb.<br>• Rhagdybir y bydd y cynnydd yng nghyfraddau cyfraniad pensiwn y cyflogwr, sy'n deillio o brisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth, yn parhau i gael ei ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru. | • Mae'r Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb ynglŷn â'r dyfarniad cyflog i ddiffoddwyr tân ar gyfer 2021/22 ond hyd yma nid yw wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer 2022/23.<br>• Nid yw'r Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb eto am y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer 2021/22.<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn rhagdybio lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd amgylchiadau prysur yn digwydd, bydd pwysau ar y gyllideb. Y rhagdybiaeth weithio yw mai'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol fyddai'n cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.<br>• Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto a fydd y grant i gefnogi'r cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn parhau. Amcangyfrifir mai £1.1m fydd y costau ar gyfer 2022/23.<br>• Yn Rhagfyr 2018, collodd y llywodraeth ei hapêl yn erbyn yr her gyfreithiol i'r trefniadau pensiwn trosiannol ar gyfer diffoddwyr tân. Bydd y rhwymedi'n gymwys ar draws cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Nid yw'r canlyniad ariannol yn hysbys, ac ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth.<br>• Yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus i drychineb Grenfell, mae'r Ddeddf Diogelwch Tân (2021) wedi cyflwyno newidiadau i'r rheoliadau adeiladu. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i gyfrifoldebau a fydd yn effeithio ar y sector tân ac achub. Mae'r effaith wrthi'n cael ei hasesu ac nid oes darpariaeth wedi cael ei gwneud eto o fewn yr asesiad o'r gyllideb. |

| Pennawd | Y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Heblaw cyflogau | • Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn cydnabod cynnydd cyfartalog o 3% ar draws y cyllidebau nad ydynt yn gyflogau. Mae hyn yn dal yn faes o risg ac ansicrwydd sylweddol. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau a'i fod yn ymdrechu i reoli pwysau costau o fewn y gyllideb a gynlluniwyd, mae hyn yn dal yn faes risg oherwydd y pwysau parhaus o fewn y gadwyn gyflenwi sy'n deillio o gynnydd mewn prisiau a materion yn ymwneud ag argaeledd. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus ond oherwydd anwadalrwydd, nid oes modd mesur yr effaith. Ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer costau eithriadol a allai ddigwydd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.<br>• Mae'r gwaith o gaffael Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) yn symud ymlaen ond mae oedi mawr. Ymestynnwyd y contract presennol ac ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cael £0.4m gan Lywodraeth Cymru tuag at ddarparu'r gwasanaeth cyfredol. Y rhagdybiaeth yw y bydd y cymorth refeniw cyfredol yn parhau er na chafwyd cadarnhad o hyn eto.<br>• Er bod yr Awdurdod yn parhau i weithio tuag at leihau ei ôl-troed carbon, nid oes cynlluniau manwl wedi cael eu llunio eto. Symudir ymlaen â'r gwaith hwn yn ystod 2022/23 ac nid oes unrhyw ddarpariaeth gyllidebol wedi'i chynnwys. |
| Cyllido Cyfalaf | • Caiff y gofyniad cyllido cyfalaf ar gyfer 2022/23 ei ddylanwadu gan y gwariant cyfalaf a fu hyd at fis Mawrth 2022. Yn ôl yr amcangyfrifon cyfredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, mae £1.3m o alldro o gymharu â'r cynllun a gymeradwywyd, sef £3.0m. Mae'r gostyngiad wedi digwydd gan mwyaf oherwydd llithrant wrth gael cerbydau newydd. | • Nid yw'r cynnydd posibl yn y cyfraddau llog yn hysbys, a gallent fod yn fwy na'r rhagdybiaethau cynllunio. |
| Incwm | • Cafodd y cyllidebau incwm eu hadolygu a'u gosod yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. | • Ni chanfuwyd risgiau penodol ynn tu hwnt 'r incwm grant gan Lywodraeth Cymru y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Hydref 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Adolygiad o'r Amcanion Gwella a Llesiant sydd yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2021-24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Adolygu amcanion hirdymor yr Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi'u cynnwys yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Bob mis Mawrth, mae'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn cyhoeddi Cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gan nodi ei amcanion gwella a llesiant y cytunwyd arnynt a gan amlinellu'r camau mae'n cynnig eu cymryd tuag at gyflawni'r amcanion hynny yn ystod y flwyddyn. Roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol mwyaf diweddar yn gynharach eleni ar gyfer y cyfnod 2021-24.

3. Er nad yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi pa mor aml y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus newid ei amcanion, mae angen cynnal adolygiad blynyddol o'i amcanion llesiant i asesu a ydynt yn dal yn berthnasol a phriodol ai peidio.

4. Dros y misoedd nesaf, bydd y Swyddogion yn ailedrych ar gynnwys Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2021-24 er mwyn diweddaru'r rhestr o gamau a gynlluniwyd ac sy'n tanategu pob amcan strategol. I'r diben hwn, gofynnir i'r Awdurdod ystyried a yw'n dymuno parhau â'r un amcanion hirdymor y flwyddyn nesaf ynteu fel arall a yw am awgrymu newidiadau y gellir eu cynnwys yn y fersiwn ddiweddaredig o Gynllun Corfforaethol 2021-24 y flwyddyn nesaf.

5. Ar sail yr Asesiad Perfformiad Blynyddol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod diwethaf, ni chafwyd arwydd y byddai diwygio neu newid y set bresennol o saith o amcanion llesiant yn fuddiol mewn cyfnod mor gynnar.

## ARGYMHELLIAD

6. Bod yr Awdurdod yn cadarnhau ei fwriad i fynd ynglŷn â'i saith amcan hirdymor presennol yn 2022/23, a'i fod yn gofyn i fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Corfforaethol 2021-24 gael ei pharatoi gan y Swyddogion, i'w chymeradwyo ym mis Mawrth 2022.

## CEFNDIR

7. Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ynghyd ag amcanion llesiant i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. I ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod, caiff y rhai eu trin fel pe baent yr un fath.

8. Mae Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddatblygu'n gynaliadwy, sy'n gorfod cynnwys:

   a) gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u dylunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant a osodwyd ar gyfer Cymru gyfan; a

   b) cymryd yr holl gamau rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

9. Fel arfer yn y cylch cynllunio, mae'r Awdurdod yn cynnig amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ystod yr hydref/gaeaf, ac ym mis Mawrth mae'n cymeradwyo Cynllun sy'n nodi camau byrdymor sy'n cefnogi ei amcanion hirdymor.

## GWYBODAETH

10. Yn ei Gynllun Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/21, roedd yr Awdurdod wedi gosod saith amcan llesiant hirdymor iddo'i hun. Ym mis Mawrth 2021, penderfynodd yr Aelodau gario'r rhain drosodd i Gynllun Corfforaethol 2021-24.

    Dyma amcanion hirdymor yr Awdurdod:

    - Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru.
    - Parhau i gydweithio i helpu cymunedau i wella eu cadernid.
    - Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
    - Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid.

- Cynnal gweithlu sy'n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg.
- Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgarwch yn ei chael ar yr amgylchedd.
- Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

11. Yn 2021/22 hefyd, cafodd y camau tanategol a fyddai'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion hirdymor hyn eu cymeradwyo ym mis Mawrth 2021. Er y bydd rhai o'r amcanion wedi cael eu cyflawni erbyn mis Mawrth 2022, bydd rhai eraill yn sicr o fod angen eu cario drosodd i'r blynyddoedd nesaf.

12. O dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod adolygu ei amcanion o leiaf unwaith y flwyddyn, ond nid oes raid iddo eu newid. Wrth asesu a yw ei amcanion yn parhau i fod yn briodol, rhaid i'r Awdurdod ystyried i ba raddau:
    - y maent yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru;
    - y maent yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy – h.y. eu bod yn helpu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau; ac
    - y mae'r Awdurdod yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

13. Os yw'r asesiad yn dangos bod angen newid unrhyw amcanion, byddai disgwyl i'r Awdurdod esbonio beth sydd wedi newid, a pham mae'r newid wedi digwydd. Hefyd, byddai angen i'r Awdurdod roi ystyriaeth i Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020.

14. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2021, cymeradwyodd yr Awdurdod yr Asesiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 i'w gyhoeddi ar ei wefan. Mae'r Asesiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a'r llwyddiannau y llynedd i gefnogi amcanion yr Awdurdod. Mae hefyd yn esbonio sut y mae pob un o amcanion yr Awdurdod yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru a sut y maent yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

15. Mae llawer o'r camau i gefnogi'r amcanion yn dystiolaeth o'r ffaith fod yr Awdurdod yn parhau i gymryd golwg hirdymor drwy'r rôl ataliol yn y gymuned, gan helpu i hysbysu, addysgu ac arfogi pobl i fyw bywydau diogel sy'n rhoi boddhad. Mae hefyd yn gweithredu'n gyfrifol wrth amddiffyn cynefinoedd naturiol a'r Amgylchedd yn fwy cyffredinol.

16. Nid yw'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn dangos bod angen diwygio na newid y set gyfredol o saith o amcanion hirdymor.

17. Bydd rhai o'r camau tanategol yn siŵr o fod yn wahanol yn 2022/23, ond caiff y rhain eu cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol diwygiedig 2021-24 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod ym mis Mawrth 2022.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol os bydd amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod yn cael eu cadarnhau neu eu diwygio. |
| Cyllideb | Mae perthynas glir rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer cyflawni'r amcanion o fewn Cynllun Corfforaethol 2021/24 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar gyfer cynllunio gwelliannau a llesiant. |
| Staffio | Dim effaith hysbys ar y lefelau staffio ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd effaith y camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar adeg briodol o'u datblygiad. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risgiau o beidio â chydymffurfio'n gyfreithiol ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Hydref 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Rheoli Risgiau Strategol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi crynodeb i'r aelodau o gynnwys cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn unol â'r polisi Rheoli Risgiau Strategol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Drwy adolygu risgiau'n rheolaidd, gwelir y gallai rhai ohonynt atal yr Awdurdod rhag sicrhau ei ganlyniadau arfaethedig a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. O'r amrediad llawn o risgiau, mae'r rhai sy'n cael eu hystyried i fod y rhai uchaf yn ymwneud â lefel cadernid yr Awdurdod tuag at naill ai ymosodiad ar ei systemau cyfrifiadurol neu golli'n sydyn aelod o staff sydd â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes yr Awdurdod. Hyd yn oed drwy gynllunio gwrth-fesurau, mae'r rhain yn debygol o barhau i fod ar lefel risg uchel.

## ARGYMHELLION

3. Bod yr Aelodau'n nodi'r risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.

## CEFNDIR

4. Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn diffinio risg strategol fel "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

5. Mae Cofrestr Risgiau Strategol yr Awdurdod yn rhestru risgiau hysbys a allai atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Mae cofnodion y gofrestr yn cael sgoriau risg sy'n cael eu hailwerthuso'n rheolaidd gan y swyddogion i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol a'r effaith a ragwelir o ganlyniad i gynllunio gwrth-fesurau.

6. Dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn cael adroddiad cryno ar y risgiau strategol, a hynny o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Rhwng yr adegau

hynny mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gallu gweld manylion llawn y gofrestr gyda'r swyddogion.

7. Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cofnodi'r lefelau risg presennol a'r lefelau risg ar gyfer y dyfodol (yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd y gwrth-fesurau a gynlluniwyd wedi cael yr effaith a obeithiwyd).

8. Mae'r lefelau risg yn seiliedig ar werthuso'r tebygolrwydd y gallai rhywbeth ddigwydd a beth fyddai'r canlyniad petai hynny'n digwydd. Darperir disgrifiadau yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

**GWYBODAETH**

9. Mae'r swyddogion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau, gan ychwanegu, dileu ac ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol. Rhoddir crynodeb o gofnodion presennol y gofrestr yn Atodiad 2.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynnal y gofrestr a gweithredu i reoli risg yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd amcanion llesiant yr Awdurdod yn cael eu cyflawni. |
| Y Gyllideb | Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i flaenoriaethu penderfyniadau ynglŷn â gwariant a fyddai'n lleihau lefelau risg. |
| Cyfreithiol | Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfau sy'n diffinio ei swyddogaethau a'r ffordd y mae'n gweithredu. |
| Staffio | Ni canfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni canfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Risgiau | Gallai rhyddhau'r gofrestr drwy ddamwain olygu bod yr Awdurdod yn agored i niwed |

**Atodiad 1**

## Dadansoddi Risgiau

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TEBYGOLRWYDD** | 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | 4 Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 3 Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | 1 Dibwys | 2 Mân | 3 Cymhedrol | 4 Arwyddocaol | 5 Mawr |
| | | **CANLYNIAD** | | | | |


## Graddfa blaenoriaethau risg

| Gwerth | Graddfa blaenoriaeth |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn - risg yn annioddefol o uchel |
| 12-16 | Uchel - risg yn sylweddol |
| 8-10 | Uchel canolig - risg yn gymedrol |
| 4-6 | Isel canolig - risg ddim yn rhy ddrwg |
| 1-3 | Isel |

**Atodiad 2**

**Y Gofrestr Risgiau Strategol ar 18/10/2021**

I. Mae'r siart isod yn dangos y lefelau presennol a'r lefelau yn y dyfodol o ran y risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.




II. <u>Risg uchel iawn</u>

Canfuwyd bod tri risg yn golygu risg uchel iawn i'r Awdurdod, mae'r rhain yn ymwneud â:

- risg o ymosodiad ar systemau cyfrifiadurol y Gwasanaeth;
- y gallu i ddarparu gwasanaethau craidd neu i recriwtio a hyfforddi staff newydd yn ddigon cyflym i gynnal y capasiti cyfredol os bydd pandemig firysol, megis y coronafeirws, yn enwedig o ystyried yr anawsterau wrth gynnal lefel argaeledd gorsafoedd y system RDS ac wrth sicrhau hyfforddiant digonol i ddiffoddwyr tân;
- lefel y cadernid petaem yn sydyn yn colli staff sydd â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes y Gwasanaeth, gan ystyried bod ei gapasiti corfforaethol yn gyfyngedig.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau rhagwelir y bydd y rhain yn gostwng i lefel risg uchel.

III. Risg uchel

Canfuwyd bod deg risg yn golygu risg uchel i'r Awdurdod. Yn gryno, heb fod mewn unrhyw drefn benodol, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- camddefnyddio asedau yn derfysgol a/neu yn droseddol;
- lleihad annisgwyl (yn barhaol neu'n lled-barhaol) yn y staff, gan effeithio ar y gallu i ymateb mewn argyfwng;
- dim digon o arian neu adnoddau i ddarparu gwasanaethau craidd neu i gynnal systemau risg-gritigol;
- methu â sicrhau digon o adnoddau gweithredol;
- capasiti'r Gwasanaeth i ddelio â beiciau ychwanegol (o'r tu allan), gan gynnwys yr agenda cynaliadwyedd amgylcheddol;
- y posibilrwydd o dorri'r gyfraith mewn perthynas â data personol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol;
- tarfu ar berthnasoedd a sefydlwyd gyda phartneriaid o lywodraeth leol;
- effaith proffil gweithlu sy'n heneiddio;
- pwysigrwydd cael gweithlu ffit ac iach i ddarparu gwasanaethau;
- cynnal y gallu i ddarparu gwybodaeth am risgiau i staff gweithredol yn electronig.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y bydd dau yn parhau i olygu risg uchel iawn, bydd pump yn gostwng i lefel canolig uchel, bydd dau yn gostwng i lefel canolig isel a bydd un yn cael ei ailgategoreiddio'n risg lefel isel.

IV. Risg canolig uchel

Canfuwyd saith risg canolig uchel. Yn gryno a heb fod mewn unrhyw drefn benodol, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol: effaith newidiadau i drefniadau llywodraethu'r ATAau yng Nghymru; anaf difrifol i aelod o staff tram ae yn y gwaith; oedi yn y prosiect cysylltiadau cenedlaethol arfaethedig; dim digon o arian grant i barhau i ddarparu gweithgareddau atal tân; y risgiau anochel sy'n gysylltiedig ag arallgyfeirio gwasanaethau a chymryd rhan mewn prosiectau partneriaethol a chynnal cysondeb gweithredol gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y Deyrnas Unedig a'r gallu i gofnodi ac adrodd ar sgiliau gweithwyr gweithredol.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y byddai pump yn parhau i olygu lefel risg canolig uchel, a byddai dau yn gostwng i lefel risg canolig isel.

V. <u>Risg canolig isel</u>

Canfuwyd pedwar risg canolig isel. Yn gryno a heb fod mewn unrhyw drefn benodol, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol: penderfyniadau aneffeithiol neu ddiffygiol ar lefel Awdurdod; cyfathrebu corfforaethol aneffeithiol; methu â rhagweld a delio â phroblemau mewn da bryd; a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau oherwydd streic neu weithredu diwydiannol.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, byddai tri o'r risgiau hyn yn parhau i olygu risg canolig isel, a byddai un yn gostwng i risg lefel isel.